

## CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL

### Cofnodion Cyfarfod Ebrill 2023 o Gyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanddarog ar 12/04/2023 am 19.00.

#### 241/2022-2023 Presennol.

Cynghorwyr: R Jones (Cadeirydd), J Williams O.B.E, S Herridge, M Griffiths R Newell, M Rees.

Y Cynghorydd Sir A Davies.

Clerc.

Cyfieithydd: C Llwyd.

#### 242/2022-2023 I dderbyn ymddiheuriadau.

Cynghorwyr: Y Cyng Sir H Jones, R McFarlane, T Evans, R Owen, K Waters.

#### 243/2022-2023 Derbyn datganiadau o ddiddordeb.

Dim.

#### 244/2022-2023 Cyfle i'r cyhoedd annerch y Cyngor ar eitemau ar yr agenda.

Dim.

#### 245/2022-2023 Materion Plismona a Diogelwch Ffyrdd.

Mynegodd y Cyng R Jones ei siom nad oedd unrhyw ddogfennau wedi dod i law oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin na Llywodraeth Cymru ynghylch y gwaith a wnaed yn y gymuned ynghylch y gostyngiad cyflymder 20mya newydd.

Adroddodd y Cyng. M Griffiths fod aelodau'r gymuned wedi gwneud sylwadau ar y gwaith a holodd pam nad oedd 'sigcanes' wedi'u hystyried fel y gellir culhau ffyrdd i'r fath raddau fel mai dim ond traffig un ffeil a ganiateir. Maent yn addas i'w defnyddio mewn lleoliadau trefol neu wledig, fel nodweddion arafu neu ran o nodweddion porth. Nid yw estyniadau lôn sengl yn addas ar gyfer ffyrdd gyda llif traffig uchel.

Mynegodd y Cyng J Williams O.B.E ei bryderon ynghylch yr ynys a leolir ar ael y bryn gan fod twmpathau cyflymder eisoes yn eu lle.

Adroddodd y Cynghorydd Sir A Davies ei bod wedi anfon e-bost at Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch yr ynys wrth y fynedfa i Borthyrhyd gan y byddai'n effeithio ar gerbydau amaethyddol yn cael mynediad i'w tir. Cafodd yr ynys ei hadleoli.

Awgrymodd y Cyng A Davies y dylai'r Clerc gysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin i gael copi o'r cynlluniau ar gyfer y gymuned. **Penderfynwyd** i'r Clerc gysylltu â'r adran berthnasol.

#### 246/2022-2023 Materion y Cyngor Sir - Cynghorydd Sir A Davies.

Nododd y Cynghorydd Sir A Davies y byddai'n falch iawn petai'r Gyngor Cymuned yn ymateb i'r ymgynghoriad ar y CDLI mewn ffordd gadarnhaol ond adeiladol.

Gyda phrofiad o'r drefn arferol o gael ail gartref ar fferm neu fusnes cefnwlad, adroddodd y Cynghorydd Sir A Davies fod y fformat presennol angen llawer o wybodaeth a thystiolaeth sy'n gwbl groes i'r adeg pan fo angen cais am gartref un blaned. Ar hyn o bryd gall teulu amaethyddol dreulio mwy na 6 blynedd yn casglu

tystiolaeth ond gydag OPDs (Datblygiad Un Blaned) cesglir y dystiolaeth wrth i'r cynllun fynd rhagddo. Mae angen 'cae chwarae teg' yn y ddau gais ac o bosibl cael cartref mwy cynaliadwy ar y fferm sy'n dod â'r ddau gais ynghyd.

Ym Mhorthyrhyd, mae cryn bryderon am sefyllfa'r ddau safle sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol arfaethedig. Mae datblygiad posib Fferm Wernfraith yn bendant yn peri gofid, ac mae 5 ymateb wedi dod i law ynglŷn â safle Llwyn Henri ond dim am y cynllun i ddatblygu tuag at Gynheidre.

Yn Llanarthne, mae ardal fechan rhwng y tai newydd ger yr afon a'r Hen Ficerdy. Yng Nghapel Dewi, mae ardal o gwmpas Capel Canol ac yn ymestyn i gyfeiriad Pantwmffre. Yn Llanddarog mae sawl man bach a Chae'r Ffair. Nid oes ffin ym Mynyddcerrig o gwbl ac felly bydd pob cais yn cael ei benderfynu ar ei liwt ei hun.

Mae problemau carthffosiaeth ym Mhorthyrhyd a Llanddarog ond nid yn Llanarthne na Chapel Dewi gan fod gan bob cartref ei system garthffosiaeth ei hun. Mae un o drigolion Porthyrhyd yn cadw cofnod o bob tro maen nhw'n galw Dŵr Cymru oherwydd yn ôl Evans Banks Ltd mewn cyfarfod ar 27/02/2023, fe wnaethon nhw ddatgan yn glir i mi a'r Clerc nad oedd unrhyw faterion yn ymwneud â charthffosiaeth a dŵr ym Mhorthyrhyd. Ond mae'r dystiolaeth yn glir ac felly drwy gadw nodiadau o bob galwad bydd hyn yn ein galluogi i ymateb pan gyflwynir cais cynllunio.

Gallai'r Cyngor Cymuned hefyd ymateb i ymgynghoriad Green Gen Tywi Wysg. Mae angen llais clir, pendant ac unedig ar y Cyngor yma yn erbyn y peilonau. Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw 28/04/2023 ac mae cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu yn Neuadd Bentref Llanarthne ar 15/04/2023 o 10.00-12.00.

Gofynnodd y Cyng R Jones am sylwadau holl aelodau'r cyngor ynghylch eu hymateb i ymgynghoriad Green Gen Tywi Wysg.

Gofynnodd y Cyng M Griffiths a oedd unrhyw enghreifftiau o brosiectau tanddaearol yn yr ardal.

Dywedodd y Cynghorydd Sir A Davies fod enghraifft o Abergwili – Llandyfaelog lle mae ceblau yn gadael y Pegwn H – Tanddaearol – Pegwn H i Gydweli.

Gofynnodd y Cyng J Williams O.B.E pam na allent gysylltu ag is-orsaf drydan agosach.

Dywedodd y Cynghorydd Sir A Davies ei fod yn Ardal o Harddwch Cenedlaethol Eithriadol (AHNE).

Dywedodd y Cyng M Griffiths fod yna brinder is-orsafedd yn yr ardal honno.

Gofynnodd y Cyng M Griffiths a oedd unrhyw gynrychiolwyr o Gyngor Sir Caerfyrddin yn bresennol yn y cyfarfod cyhoeddus ar 15/04/2023.

Awgrymodd y Cyng R Jones y dylai'r Clerc fformatio llythyr mewn ymateb i'r ymgynghoriad a'i anfon ato i'w brawfddarllen cyn ei gyflwyno. **Penderfynwyd** i'r Clerc fformatio'r llythyr.

Gofynnodd aelodau'r Cyngor i'r Clerc fformatio a chyflwyno llythyr ynglŷn â'r CDLI. **Penderfynwyd** i'r Clerc fformatio'r llythyr.

#### **247/2022-2023 Adroddiad y Cadeirydd.**

Adroddodd y Cyng R Jones nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod "Yma i Chi" gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yng Nghanolfan Halliwell, Caerfyrddin ar 29/03/2023 oherwydd rhesymau personol.

#### **248/2022-2023 Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 08/03/2023.**

**Penderfynwyd** cadarnhau cofnodion 08/03/2023. Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng S Herridge.  
Dyweddodd y Cyng M Griffiths gamgymeriad ar dudalen 3, Rhif 8 (Newid 24/11/2023 – 24/11/2022). **Penderfynwyd** i'r Clerc newid cyn ei roi ar y wefan.

**249/2022-2023 Materion yn codi o'r cofnodion uchod.**

Dyweddodd y Clerc wrth aelodau'r Cyngor fod yr holl faterion i'w datrys wedi eu gweithredu ac os derbyniwyd gohebiaeth, roedd copi o'r E-bost wedi ei anfon at bob aelod er gwybodaeth.

**250/2022-2023 I nodi gohebiaeth neu i restru i'w hystyried mewn cyfarfod o'r cyngor sydd i ddod.**

(Mae'r holl ohebiaeth berthnasol yn cael ei e-bostio at aelodau'r cyngor ar yr adeg y'i derbynnir a dim ond yn cael ei ddwyn gerbron y cyfarfod os oes angen neu os gwneir cais penodol gan yr aelodau neu'r Clerc).

Gofynnodd y Cyng J Williams O.B.E a oedd ymateb wedi dod i law i lythyr y cynghorau cymuned ynghylch **PL/05023** – Diwygio cytundeb adran 106 ar W/26987 (sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu 20% o gyfanswm nifer yr anheddau i'w hadeiladu i fod yn anheddau fforddiadwy). Tir gyferbyn â Neuadd Bentref Llanddarog, Llanddarog, Caerfyrddin, SA32 8NS (Cofnod 167/2022-2023). Atebodd y Clerc nad oedd unrhyw ymateb wedi ei dderbyn.

Dyweddodd y Cyng J Williams O.B.E y dylai'r penderfyniad gael ei wneud gan y pwyllgor cynllunio gwreiddiol ac nid swyddogion cynllunio.

**Penderfynwyd** i'r Cynghorydd Sir A Davies gysylltu â'r adran gynllunio am ddiweddariad.

Dyweddodd y Clerc wrth aelodau'r Cyngor am hysbysiad a dderbyniwyd oddi wrth Gwasanaethau Coed Dynefor oherwydd y cynnydd mewn cyflogau yn 2022 ac ar 01/04/2023, cynnydd yng nghostau tanwydd a chostau byw y bydd pob toriad o'r ymylon glaswelltir yn cynyddu o £250.00. - £300.00.

Dyweddodd y Clerc bod chwyddiant yn ystod y 12 mis diwethaf wedi effeithio ar bob unigolyn a busnes yn yr ardal fel y gwyddom i gyd ac awgrymodd fod y cyngor cymuned yn derbyn y cynnydd gan fod safon gwaith Gwasanaeth Coed Dynefor wedi bod heb unrhyw fater na chwyn. .

Trafododd aelodau'r Cyngor yr hysbysiad a chytunwyd ag awgrym y Clerc. Cynigwyd gan y Cyng M Rees ac eiliwyd gan y Cyng S Herridge.

Adroddodd y Clerc fod e-bost wedi ei dderbyn gan aelod o'r gymuned ar 09/04/2023 a'i anfon ymlaen at holl aelodau'r cyngor a'r Cynghorydd Sir A Davies ynghlŷn â'r datblygiadau posib ar Fferm Wern Fraith, Llwyn Henri, Y CDLI a'r ffiniau cymunedol. Adroddodd y Clerc fod y Cynghorydd Sir A Davies ac yntau wedi ymateb i'r pryderon a dderbyniwyd yn yr e-bost.

**251/2022-2023 Cynllunio.**

Dim gwrthwynebiadau i'r cais cynllunio isod. Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng M Rees.

**PL/05566** - Cadw clamp silwair - Penrhiw, Cwmisfael, Caerfyrddin, SA32 8BY.

**252/2022-2023 Taliadau.**

Ardystiwyd y taliadau isod yng nghyfarfod mis Mawrth a'u cadarnhau yng nghyfarfod mis Ebrill. Copïau o anfonebau a anfonwyd at bob aelod yn electronig cyn talu am awdurdodiad. Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng S Herridge.

Dull Talu	Dyddiad	Cyflenwyr a Manylion	Swm £ gan gynnwys TAW
Ar-lein	13/03/2023	JG Evans – Cyflogres mis Mawrth	356.74
Ar-lein	13/03/2023	HMRC– Cyfnod 12	93.40
Ar-lein	13/03/2023	Un Llais Cymru - Aelodaeth	218.00
Ar-lein	13/03/2023	PD Flagpole – 28/02/2023	567.00
Ar-lein	13/03/2023	Ymchwil Canser Macmillan - Rhodd	95.00
Ar-lein	13/03/2023	Cyngor Sir Caerfyrddin - 96924253	750.60
Ar-lein	13/03/2023	Clefyd Motor Neuron - Rhodd	95.00
Ar-lein	13/03/2023	SLCC – MEM243315-1	177.00
Ar-lein	13/03/2023	Cyngor Sir Caerfyrddin - 96962639	161.66
Ar-lein	16/03/2023	Nyth	33.82
Ar-lein	29/03/2023	Cyngor Sir Caerfyrddin - 87013021	1745.17
Ar-lein	30/03/2023	Cyngor Cymuned Llanarthne – 50% o gyfraniadau Zoom	160.00

#### **253/2022-2023 Derbyniadau.**

Cyngor Cymuned Llanarthne SLCC 50%

22/03/2023 - £88.50

Cyngor Cymuned Gorslas - Rhodd plattform ar-lein 8 x cyfarfod.

30/03/2023 - £160.00.

#### **254/2022-2023 Derbyn adroddiad yr Arholwr Ariannol Mewnol 01/01/2023 – 31/03/2023.**

Roedd pob aelod wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig cyn y cyfarfod. Cafwyd adroddiad llafar llawn gan y Cyng R Jones. Cadarnhaodd yr adroddiad gywirdeb y cysoniad banc a'r datganiad cyfrifon a ddarparwyd i'r Cyngor. Cadarnhaodd hefyd gywirdeb yr adroddiad cyllideb terfynol a ddarparwyd. Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng. M Griffiths i dderbyn yr adroddiad. Diolchodd yr aelodau i'r Cyng R Jones a'r Clerc am eu gwaith. Roedd pob aelod wedi cael copi o gyfrifon 2022 – 2023 cyn y cyfarfod. Diweddarodd y Clerc holl aelodau'r cyngor ar incwm, gwariant ac adroddiad cyllideb cyflawn. Dangosodd y Clerc fod rhai pynciau o'r gyllideb gyda gorwariant ac eraill danwariant a rhoddwyd eglurhad i bob pwnc.

#### **255/2022-2023 I drafod Cofeb Ryfel Porthyrhyd.**

Dim diweddariadau.

#### **256/2022-2023 Fforwm er mwyn i Aelodau godi adroddiadau / cwestiynau drwy'r Cadeirydd.**

Adroddodd y Cyng M Rees fod y lloches bws concred yn Llanddarog yn llenwi'n gyson gyda dail. Cynigiodd y Cyng J Williams O.B.E helpu gyda'r mater.

**Penderfynwyd** i'r Cyng J Williams O.B.E gael gwared ar y dail.

Gofynnodd y Cynghorydd M Griffiths am fynediad ar-lein i gyfarfodydd a'r defnydd o Ysgol Llanddarog. Adroddodd y Cyng R Jones iddo gael ei drafod yng nghyfarfod mis Tachwedd ar 09/11/2022 (**Cofnod 148/2022-2023**) a bod Un Llais Cymru wrthi'n trafod y ddeddfwriaeth gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd gan nad oedd llawer o gynghorau cymuned gwledig yn gallu darparu'r angen cyfleusterau a phenderfynwyd aros am adroddiad gan Un Llais Cymru cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Adroddodd y Cyng R Newell fod aelod o'r gymuned wedi dod ato ynglyn â chyflwr y palmant ar y ddynesiad i Gapel Seion a bod cerbydau yn gyson yn gosod ymylon glaswelltog a lawnt y pentref. Gofynnodd y Cyng R Newell a oedd hi'n bosibl i'r palmant gael ei drwsio ac i bolardiau gael eu codi ar yr ymylon a grîn y pentref i atal difrod pellach. **Penderfynwyd** i'r Cynghorydd Sir A Davies a'r Clerc adrodd i'r adran berthnasol.

#### **257/2022-2023 Mewn camera 20.21**

Gadawodd y rhai nad oeddent yn aelodau o'r Cyngor Cymuned, neu'r Clerc y cyfarfod – i beidio â dychwelyd. Mae'r gwaharddiad oherwydd bod materion personél / staffio yn cael eu trafod.

#### **258/2022-2023 Rhediad cyflog staff Ebrill 2023.**

Adroddodd y Clerc symiau'r gyflogres ar lafar i holl aelodau'r cyngor. **Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad a chadarnhau taliad y symiau a gyflwynwyd.

Cynigwyd gan y Cyng J Williams O.B.E ac eiliwyd gan y Cyng S Herridge.

#### **259/2022-2023 Dyddiad y cyfarfod nesaf.**

09/05/2023 yn Neuadd Bentref Porthyrhyd.

#### **260/2022-2023 Daeth y cyfarfod i ben am 20.26.**

Cadeirydd

---

Dyddiad

---